OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2023 No. 260

Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2023

RHAN 5

Yr hawl i gael amser i ffwrdd

Pennu swm absenoldeb oherwydd profedigaeth

42.—(1) Swm yr absenoldeb oherwydd profedigaeth y mae gan weithiwr amaethyddol hawl i'w gael yn sgil marwolaeth person yng Nghategori A yw 2 wythnos.

(2) Swm yr absenoldeb oherwydd profedigaeth y mae gan weithiwr amaethyddol hawl i'w gael yn sgil marwolaeth person yng Nghategori B yw—

(a) 4 diwrnod pan fo'r gweithiwr amaethyddol yn gweithio ei oriau sylfaenol ar 5 niwrnod neu fwy bob wythnos i'r un cyflogwr, neu

(b) pan fo'r gweithiwr amaethyddol yn gweithio ei oriau sylfaenol ar 4 diwrnod yr wythnos neu lai i'r un cyflogwr, nifer y diwrnodau a gyfrifir yn unol â pharagraff (3).

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (7), mae swm hawl gweithiwr amaethyddol i gael absenoldeb oherwydd profedigaeth yn sgil marwolaeth person yng Nghategori B i'w gyfrifo yn ôl y fformwla a ganlyn—

$$\frac{DWEW}{5} \times 4$$

(4) Swm yr absenoldeb oherwydd profedigaeth y mae gan weithiwr amaethyddol hawl i'w gael yn sgil marwolaeth person yng Nghategori C yw—

(a) 2 ddiwrnod pan fo'r gweithiwr amaethyddol yn gweithio ei oriau sylfaenol ar 5 niwrnod neu fwy bob wythnos i'r un cyflogwr, neu

(b) pan fo'r gweithiwr amaethyddol yn gweithio ei oriau sylfaenol ar 4 diwrnod yr wythnos neu lai i'r un cyflogwr, nifer y diwrnodau a gyfrifir yn unol â pharagraff (5).

(5) Yn ddarostyngedig i baragraff (7), pan fo'r erthygl hon yn gymwys mae swm hawl gweithiwr amaethyddol i gael absenoldeb oherwydd profedigaeth yn sgil marwolaeth person yng Nghategori C i'w gyfrifo yn ôl y fformwla a ganlyn—

$$\frac{DWEW}{5} \times 2$$

(6) At ddibenion y fformwla ym mharagraffau (3) a (5), DWEW yw nifer y diwrnodau a weithiwyd bob wythnos gan y gweithiwr amaethyddol wedi ei gyfrifo yn unol ag erthygl 32 neu 33 (fel y bo'n briodol).

(7) Pan fo'r cyfrifiad ym mharagraff (3) neu (5) yn arwain at hawl i gael absenoldeb oherwydd profedigaeth o lai nag 1 diwrnod, mae'r hawl i'w thalgrynnu i fyny i un diwrnod cyfan.

(8) O dan amgylchiadau pan fo mwy nag un gyflogaeth gan weithiwr amaethyddol (boed gyda'r un cyflogwr neu gyda chyflogwyr gwahanol), caniateir cymryd absenoldeb oherwydd profedigaeth â thâl mewn cysylltiad â mwy nag un gyflogaeth ond ni chaiff, mewn cysylltiad ag unrhyw un brofedigaeth, fod yn fwy nag uchafswm yr absenoldeb oherwydd profedigaeth a bennir ar gyfer un gyflogaeth yn yr erthygl hon.